**CYNGOR SIR FYNWY**
**GORCHYMYN CYFUNO RHEOLIADAU TRAFFIG, TERFYNAU CYFLYMDER A PHARCIO CYNGOR SIR FYNWY 2019**
**(GORCHYMYN DIWYGIO RHIF 16) 2025**

**DARPARIAETH A DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I ORCHMYNNION TRAFFIG O FEWN CYMUNEDAU AMRYWIOL YN SIR FYNWY**

**EFFAITH Y GORCHYMYN:**

- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar unrhyw Adeg ar FforDD Woodstock, Cil-y-coed
- Cyflwyno Cyfyngiad Pwysau 7.5T ar Lôn y Felin, Cil-y-coed.
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros a Llwytho ar Unrhyw Adeg a Llwytho ar Stad Ddiwydiannol Heol Wonastow Gorllewin, Trefynwy.
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Rhodfa Wyesham, Trefynwy.
- Cyflwyno Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg ar Heol Wyesham a Highmeadow, Trefynwy.
- Cyflwyno Man Parcio Amser Cyfyngedig i Bobl Anabl ar Teras Hardwick, B4293

**DATGANIAD RHESYMAU**

| Rhif Lluniad | Enw(au) Ffyrdd Cysylltiedig | Manylion |
|---|---|---|
| 2202 | Woodstock Way, Cil-y-coed | **Cynnig ar gyfer Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg**<br><br>I gynyddu diogelwch cerddwyr ar gyffordd traffig-uchel Ffordd Woodstock a Lôn y Felin, Cil-y-coed, mae Cynllun Teithio Llesol Ffordd Woodstock yn cynnig gosod croesfannau wedi'u rheoli ar gyfer cerddwyr. Mae'r croesfannau hyn yn hanfodol ar gyfer symudiad diogel, yn arbennig gyda symudiadau sylweddol ger Ysgol Cil-y-coed a'r Ganolfan Hamdden.<br><br>Fodd bynnag, gall cerbydau sy'n parcio yn agos at groesfannau rwystro llinellau gweld, gan achosi perygl i gerddwyr a gyrwyr. Felly, i ddileu'r rhwystrau hyn a chreu amgylchedd mwy diogel, cynigir gorchymyn gwaharddiad aros ar unrhyw adeg yn agos at y croesfannau newydd. Bydd hyn yn sicrhau gwelededd clir ac yn galluogi modurwyr a cherddwyr i fod yn fwy hyderus pan maent yn teithio yn yr ardal. |
| 2203 | Lôn y Felin, Cil-y-coed | **Cynnig ar gyfer Cyfyngiad Pwysau 7.5T (Heblaw Bysus) ar gyfer traffig i gyfeiriad y gorllewin yn unig a Chyfyngiad Pwysau 7.5T ar gyfer traffig i gyfeiriad y gorllewin yn unig**<br><br>Mae'r seilwaith a gynigir ar gyfer cerddwyr a seiclwyr, yn cynnwys y gyffordd wedi ei hailddylunio gyda chroesfannau gyda signal a llwybrau rhannu defnydd wrth gyffordd Ffordd Woodstock a Lôn y Felin, angen rheolaeth ofalus ar fathau a meintiau cerbydau. Bydd geometreg newydd y ffordd yn ei gwneud yn anniogel i gerbydau HGV i droi o Lôn y Felin i Ffordd Woodstock.<br><br>I sicrhau diogelwch cerddwyr a seiclwyr, cynigir cyfyngiad pwysau o 7.5T. Bydd hyn yn diogelu'r seilwaith newydd, gostwng peryglon a chefnogi nod y cynllun o greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer teithio llesol drwy atal |

| | | |
|---|---|---|
| | | cerbydau mawr rhag gwneud symudiadau troi peryglus a chynnal llinellau gweld clir. |
| 2204 | Stad Ddiwydiannol Heol Wonastow, Trefynwy | **Cynnig ar gyfer Gwaharddiad Aros a Llwytho Ar Unrhyw Adeg**<br><br>Mae preswylwyr a chynrychiolwyr lleol wedi codi pryderon am broblemau diogelwch ar Stad Ddiwydiannol Heol Wonastow Gorllewin, yn arbennig yng nghyswllt cerbydau, yn aml gerbydau HGV, sy’n aml yn parcio’n ddwbl. Mae’r arfer hwn yn creu rhwystrau ffisegol a gweledol, gan lesteirio llif traffig ac achosi risgiau diogelwch.<br><br>Er mwyn mynd i’r afael â’r pryderon hyn a gwella diogelwch ffyrdd, cynigiwn weithredu gorchymyn Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg a Gwaharddiad Llwytho ar Unrhyw Adeg. Bydd y cyfyngiadau hyn yn atal cerbydau rhag stopio, parcio neu lwytho ar y ffordd, gan sicrhau tramwyfa glir a heb rwystr.<br><br>Drwy weithredu’r cyfyngiadau hyn, anelwn wella diogelwch ffordd, gwella llif traffig a diogelu defnyddwyr ffordd bregus drwy ostwng y risg o ddamweiniau a gwrthdrawiadau a achosir gan rwystr ar welededd a gallu cyfyngedig i symud. |
| 2205 | Rhodfa Wyesham, Trefynwy | **Cynnig ar gyfer Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg**<br><br>Cafodd y Cyngor bryder diogelwch ffordd gan y cynrychiolydd etholedig lleol ar ran preswylwyr Rhodfa Wyesham. Mae’r pryder yn ymwneud ag adran benodol o’r ffordd lle cynigir gweithredu cyfyngiad ‘dim aros ar unrhyw adeg’.<br><br>Mae lled cul y ffordd gerbydau a geometreg y ffordd, ynghyd â phresenoldeb cerbydau wedi parcio, yn achosi anawsterau ar gyfer cerbydau gwasanaethau argyfwng a cherbydau casglu sbwriel i gael mynediad i eiddo ar hyd y rhan hon o Rhodfa Wyesham. Nid yw’r ffordd gerbydau yn ddigon llydan i ddarparu ar gyfer cerbydau wedi parcio a hefyd dramwyfa ddiogel a dilyffethair i’r cerbydau hanfodol hyn.<br><br>Felly, i sicrhau mynediad diogel ac amserol i wasanaethau argyfwng a cherbydau casglu sbwriel i eiddo ar hyd yr adran hon o Rhodfa Wyesham, cynigir gwaharddiad aros ar unrhyw adeg. |
| 2206 | Heol Wyesham a Highmeadow, Trefynwy | **Cynnig Gwaharddiad Aros ar Unrhyw Adeg**<br><br>Cafodd y Cyngor bryder diogelwch ffordd gan gynrychiolydd etholedig lleol ar ran preswylwyr pryderus. Mae cerbydau wedi parcio yn y lleoliad dan sylw yn gorfodi defnyddwyr ffordd eraill, yn cynnwys modurwyr a cherddwyr, i groesi i’r lôn gyferbyn o draffig er mwyn osgoi’r cerbydau sydd wedi parcio. Mae’r symudiad hwn yn rhoi’r defnyddwyr hyn yn uniongyrchol yn llwybr traffig sy’n dod. Mae blaen-welededd cyfyngedig cerbydau yn teithio yn ddau gyfeiriad, a waethygwyd gan raddiant |

| | | |
|---|---|---|
| | | serth y drofa, yn achosi cynnydd sylweddol mewn risg gwrthdrawiadau ben-ben yn cynnwys cerbydau a defnyddwyr ffordd eraill.<br><br>Felly, i liniaru'r risgiau hyn a gwella diogelwch ffordd, cynigir gwaharddiad aros  ar unrhyw adeg ar gyfer y lleoliad hwn. |
| 2207 | Teras Hardwick B4293,<br>Cas-gwent | **Man Parcio Pobl Anabl (dydd Llun i ddydd Sadwrn, 9am i 5pm), cyfnod aros cyfyngedig 3 awr, dim dychwelyd o fewn 1 awr**<br><br>Ar hyn o bryd, mae bae parcio i'r anabl ar gael yn Teras Hardwick. Fodd bynnag, dywedwyd fod y bae hwn yn cael ei gamddefnyddio, gyda cherbydau yn aml yn cael eu gadael wedi parcio am gyfnodau estynedig.<br><br>I sicrhau fod y bae yn parhau'n hygyrch i'r rhai sydd wirioneddol ei angen, cynigiwn gyflwyno cyfyngiad amser aros. Mae hyn yn golygu yn ymarferol na fedrir parcio am ddim mwy na 3 awr, gan fod yn gydnaws gyda'r cyfyngiadau ar faeau eraill i'r anabl yng nghanol tref Cas-gwent. Mae'r mesur hwn yn anelu i atal camddefnydd a gwella hygyrchedd ar gyfer unigolion anabl sy'n dibynnu ar y gofodau dynodedig hyn. |